Adroddiad ar

# Myrtle House Day Nursery

**22 Myrtle Terrace**
**Llanelli**
**SA15 1LH**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Myrtle House Day Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Myrtle House Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ellen Chapman |
| Person â gofal | Karen Marshall, Claire Rees, Catrin Stephens |
| Nifer y lleoedd | 97 |
| Amrediad oedran y plant | 0-12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 25 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00-18:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23/01/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 07/02/2023 |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella gweithdrefnau monitro i sicrhau bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o gam datblygu pob plentyn

A2 Gwella prosesau hunanwerthuso i nodi’n gywir gryfderau a meysydd i’w datblygu a sicrhau y caiff camau gweithredu eu gwerthuso’n effeithiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn glir ac yn gwneud dewisiadau effeithiol yn y lleoliad. Maent yn archwilio'r ardaloedd yn rhydd ac yn penderfynu beth i chwarae ag ef a ble i'w archwilio. Mae gan bron pob un o'r plant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn mynd at ymarferwyr yn gyson â cheisiadau ac yn sgwrsio'n naturiol â nhw. Er enghraifft, pan fyddant yn gweld ymarferwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol, maent yn eu holi beth maent yn ei wneud ac yn penderfynu p'un a ydynt am ymuno ai peidio.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad brwd o ddiogelwch a pherthyn gan fod ymarferwyr yn dathlu eu cyflawniadau. Er enghraifft, mae ardal benodol i'r plant arddangos eu gwaith er mwyn i bawb edrych arno.

Mae babanod a phlant sy'n newydd i'r lleoliad yn ymgartrefu'n gyflym ac yn fodlon yn eu hamgylchedd. Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r ymarferwyr, sy'n eu croesawu'n gynnes. Mae'r plant yn mynd at yr ymarferwyr yn rheolaidd i gael eu cofleidio, a byddant yn eu cofleidio'n ôl bob tro.

Mae'r plant yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn dda. Maent yn rhannu adnoddau ac yn dangos caredigrwydd heb lawer o anogaeth gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn cysuro ei gilydd pan fyddant yn gweld rhywun yn disgyn neu'n brifo eu hunain. Maent yn dechrau deall ac aros eu tro, er enghraifft wrth ddefnyddio'r ysbienddrychau neu glipfyrddau.

Mae'r plant yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu chwarae a'u dysgu am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau torri cymaint fel eu bod yn dychwelyd i'r gweithgaredd i gael tro arall. Mae bron pob un o'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maent yn symud o gwmpas yr amgylchedd dan do ac awyr agored yn rhwydd ac yn ennill ymdeimlad o gyflawniad o'r hyn a wnânt. Mae'r plant yn ymhyfrydu yn y cyfle i gyfarwyddo eu chwarae eu hunain ac yn gofyn cwestiynau'n hyderus i ymestyn eu dysgu, fel pam nad yw tylluanod i'w gweld yn ystod y dydd.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda. Maent yn golchi eu dwylo ac mae pob un o'r plant yn estyn byrbryd iddyn nhw'u hunain yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn penderfynu ble yr hoffent fwyta ac yn mwynhau dewis ble i eistedd. Yn ystod amser byrbryd, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn sgwrsio â'r staff a'i gilydd wrth y bwrdd. Gyda'i gilydd, maent yn siarad am y bwyd maent wedi'i ddewis ac yn gofyn i'r staff pan fydd eisiau mwy arnynt.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth uchel ac yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus iawn. Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu ac mae ganddynt gymwysterau cymorth cyntaf perthnasol. Maent yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i bryderon amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliadau ar gyfer diogelu plant yn rhagori ar y gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith ac yn eu dilyn yn dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn dilyn y polisi meddyginiaeth yn briodol ac yn bodloni anghenion plant ag alergeddau yn ddiogel. Mae'r lleoliad yn annog bwyta'n iach yn effeithiol trwy ddarparu byrbryd treigl i'r plant fynd ato'n rhwydd. Mae ymarferwyr yn ddelfryd ymddwyn da. Maent yn trin y plant a'i gilydd â pharch.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad corfforol y plant yn dda. Maent yn annog y plant i wneud ymarfer corff a chael awyr iach trwy gynnig cyfleoedd cyson iddynt chwarae yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn cadw at weithdrefnau glanhau yn effeithiol trwy sicrhau bod amgylchedd hylan a lleihau traws-halogiad. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn dda iawn, gan ddefnyddio ymagwedd gynnes ac anogol yn eu rhyngweithiadau. Maent yn rhoi canmoliaeth yn gyson ac yn cydnabod ymdrechion y plant. Mae pob ymarferydd yn annog y plant i fod yn garedig ac i aros eu tro. Er enghraifft, pan roedd plentyn eisiau jwg oedd gan blentyn arall, atgoffodd yr ymarferydd y plentyn yn dyner mai tro ei ffrind ydoedd a bod digon o adnoddau ar gael i'r plentyn eu defnyddio. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ac yn annog defnyddio moesau da.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, galluoedd a'u dewisiadau unigol. Mae'r plant yn derbyn gofal sy'n gyson â'u harferion unigol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n daled i ddarparu amgylchedd anogol a gofalgar lle daw anghenion y plant yn gyntaf. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i wneud penderfyniadau drostyn nhw'u hunain. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd i ddatblygu ac ymestyn chwarae plant a phryd i gymryd cam yn ôl i alluogi'r plant i ddefnyddio eu menter eu hunain. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i'r plant i hyrwyddo dysgu a datblygiad trwy fanteisio ar ystod eang o weithgareddau diddorol ac amrywiol. Maent yn cynnal arsylwadau rheolaidd o chwarae a dysgu'r plant, sy'n eu galluogi i olrhain eu cerrig milltir. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol, fel gweithwyr iechyd proffesiynol, i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o sut mae plant yn dysgu trwy chwarae ac archwilio. Maent yn ymateb yn dda i anghenion, diddordebau a galluoedd amrywiol y plant ac maent ganddynt ethos cynhwysol lle caiff rhinweddau unigol pob plentyn eu gwerthfawrogi. Dyma un o gryfderau'r lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol a difyr ac yn cynnig y gallu i'r plant fanteisio ar ystod eang o adnoddau symbylol yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored.

Mae hyn yn annog y plant i fod yn hyderus wrth chwarae ac yn hybu eu chwilfrydedd yn dda. Maent yn sylwi ar beth sy'n ennyn diddordebau'r plant yn dda iawn ac yn ymateb trwy ddarparu adnoddau ychwanegol i gyfoethogi chwarae'r plant. Er enghraifft, ar ôl arsylwi'r plant yn fflapio'u breichiau fel adar, gwnaeth ymarferydd adenydd ffabrig i'r plant eu harchwilio. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau cyffrous sy'n datblygu dealltwriaeth plant o'r byd naturiol a sut i ofalu amdano. Maent yn tyfu blodau a llysiau ac yn cymysgu lard â hadau i wneud porthwyr adar.

Mae ymarferwyr yn hybu medrau cyfathrebu plant yn briodol. Maent yn annog y plant i ymateb i gwestiynau penagored ac yn cynnig sylwadau sy'n ysgogi'r meddwl ar yr hyn y maent yn ei wneud, er enghraifft trwy drafod pam y mae rhai adar yn gwneud eu nythod ar y ddaear ac eraill yn eu gwneud mewn coed. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau meddwl y plant ac yn eu galluogi i rannu eu syniadau a'u barnau'n rhwydd. Mae ymarferwyr wedi darparu ardaloedd dan do clyd â llyfrau i'r plant, lle gallant ymlacio a mwynhau storïau. Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud marciau ac mae ystod addas o adnoddau TGCh ar gael i'r plant eu defnyddio wrth chwarae.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sy'n hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrwy fod ag adnoddau fel bwyd, gwisgoedd a llyfrau yn yr amgylchedd dysgu. Maent yn canu caneuon â'r plant ac yn darllen storïau syml iddynt. Maent yn defnyddio'r Gymraeg i holi plant ac yn enwi lliwiau a rhifau'n briodol wrth iddynt chwarae.

Mae ystod dda o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod a syndod trwy gynllunio o gwmpas y tymhorau. Maent yn cynnig gweithgareddau addas i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill a'u traddodiadau a'u dathliadau, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau creadigol y plant yn briodol, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd i'r plant ddefnyddio deunyddiau hydrin i wneud modelau o fflamingos.

Mae ymarferwyr wedi datblygu ymagwedd fwy hyblyg at gynllunio i adlewyrchu diddordebau a dewisiadau'r plant yn fwy manwl. Maent yn cofnodi arsylwadau mewn llyfrau unigol plant ac yn eu defnyddio i lywio profiadau dysgu yn y dyfodol. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi dechrau cofnodi cynnydd plant mewn dyddlyfrau dysgu; fodd bynnag, nid ydynt yn dangos sut mae'r plant yn caffael medrau'n ddigon clir. O ganlyniad, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gyfyngedig o gam datblygu cyfredol pob plentyn.

Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant trwy drafodaethau cyson ac adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd.

**Yr amgylchedd:**

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd croesawgar a chyfoethog sy'n cynorthwyo plant i ddysgu a chwarae'n llwyddiannus. Maent yn gofalu am y plant mewn amgylchedd saff, diogel a glân. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cloi pob drws allanol ac yn cofnodi pob ymwelydd â'r lleoliad. Mae gan y lleoliad asesiadau risg effeithiol ar gyfer yr amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored ac maent eu hadolygu a'u diweddaru'n aml. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a chadw'n dda ac mae'r holl

wiriadau diogelwch ar waith, gan gynnwys profion tân a thrydanol. Mae ymarferion tân rheolaidd yn sicrhau bod ymarferwyr a phlant yn gwybod sut i adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn ymgorffori mesurau diogelwch yn yr arferion dyddiol, sy'n helpu i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn rhwydd. Mae'r plant yn mwynhau ac yn elwa'n fawr ar chwarae y tu allan. Er enghraifft, maent yn mwynhau gwneud patrymau mewn blawd, chwarae ar y ffrâm ddringo a dychmygu bod sbageti yn y dŵr yn fwydod. Mae'r man awyr agored yn caniatáu her a risg briodol, gan hefyd ystyried yr angen i hyrwyddo diogelwch y plant a'u hamddiffyn rhag niwed.

Mae ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd chwarae a dysgu i gefnogi annibyniaeth y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r holl ddodrefn o faint ac uchder priodol ac mae'r mannau storio ar lefel sêl yn galluogi'r plant i adnabod a dewis adnoddau'n hawdd. Mae'r ystafelloedd chwarae yn cynnig ardaloedd diddorol i'r plant eu harchwilio a dysgu trwy chwarae. Mae basgedi storio naturiol wedi'u trefnu'n dda ac maent yn apelgar i'r plant. Mae'r amgylcheddau dan do ac awyr agored yn helaeth ac wedi'u gosod yn dda, lle gall plant o bob angen a gallu fynd at yr holl ardaloedd yn ddiogel.

Mae ymarferwyr yn cynnig adnoddau rhagorol ac yn eu newid yn rheolaidd i gyd-fynd ag anghenion y plant ar y pryd. Mae ystod eang o deganau ac adnoddau o ansawdd da i sbarduno diddordebau'r plant, gan gynnwys deunyddiau go iawn a deunyddiau naturiol. Mae deunyddiau wedi'u hailgylchu ac eitemau naturiol, fel brigau a dail, ar gael i'r plant fwynhau chwarae â nhw. Mae'r plant yn elwa ar ystod eang o lyfrau ac adnoddau chwarae sy'n adlewyrchu ymyrraeth ddiwylliannol, gan gynnwys treftadaeth Gymreig. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn ennill dealltwriaeth dda o'r byd maent yn byw ynddo. Mae ymarferwyr yn glanhau'r teganau a'r adnoddau'n gyson ac yn cael gwared yn briodol ar unrhyw eitemau sydd wedi torri. Mae toiledau a chyfleusterau newid cewynnau yn lân, yn briodol o ran oedran ac yn hawdd mynd atynt. Gall y plant fanteisio ar ddodrefn o faint priodol, fel byrddau a chadeiriau, yn ogystal ag offer i hyrwyddo eu datblygiad corfforol a'u medrau annibyniaeth yn llwyddiannus. Mae adnoddau'n caniatáu i'r plant archwilio a chyfoethogi eu chwarae, gan ddewis beth yr hoffent ei wneud â'r gwrthrychau gwahanol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r rheolwyr a'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, wedi'i seilio ar ddarparu gofal plant ac addysg o ansawdd uchel mewn amgylchedd sy'n caniatáu i'r plant deimlo'n arbennig a'u bod yn cael eu derbyn, eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn briodol ac mae ethos cadarnhaol lle mae pob ymarferydd yn teimlo'n gyfforddus i fynd at y rheolwr â phryderon a syniadau i wella'r lleoliad. Mae'r rheolwr a'r arweinwyr yn trefnu'r lleoliad yn dda ac yn bodloni anghenion plant yn llwyddiannus. Mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith, sy'n cyfrannu'n effeithiol at rediad rhwydd y lleoliad. Mae ymrwymiad cryf i waith tîm ac mae hyn yn effeithio'n dda ar ddeilliannau i blant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd i lunio arsylwadau o'r plant, sy'n eu harwain i gynllunio gweithgareddau sy'n cyffroi'r plant ac yn ennyn eu diddordeb yn effeithiol.

Mae datganiad cyfredol o ddiben sy'n sicrhau y gall rhieni a gofalwyr wneud dewis gwybodus am ofal eu plentyn. Mae'r rheolwr yn cynnal arfarniadau rheolaidd o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn trafod eu harfer, yn rhannu syniadau ac yn nodi eu hanghenion hyfforddiant. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn teimlo y cânt eu

gwerthfawrogi ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r rheolwr yn sicrhau hyfforddiant priodol i staff ac yn eu hannog i weithio tuag at ddyrchafiad yn y lleoliad.

Mae'r rheolwr wedi ymgorffori proses i werthuso gwaith y lleoliad ac mae ymarferwyr wedi ymrwymo i wella ansawdd darpariaeth a deilliannau i blant. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir ac nid yw ymarferwyr yn mesur effaith y gwelliannau ar ddeilliannau i blant yn ddigon trwyadl.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o'r grantiau sydd ar gael i wella darpariaeth a deilliannau. Er enghraifft, prynodd y lleoliad offer TGCh i'r plant archwilio fel rhan o'u chwarae. Mae hyn yn cynnwys llechi cyfrifiadurol, bandiau garddwrn a chlipfyrddau i'r plant recordio negeseuon i'w gilydd ymlaen llaw.

Mae'r lleoliad wedi datblygu cysylltiadau cryf ag ystod o bartneriaid, sy'n cefnogi ac yn gwella dysgu a datblygiad y plant yn llawn. Mae cysylltiad cryf â'r athro ymgynghorol lleol, sy'n cynnig cymorth ac arweiniad defnyddiol ar wella'r amgylchedd dysgu. Mae gan y lleoliad berthynas agos â rhieni a gofalwyr. Wrth i'r plant ddechrau yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn trafod â'u rhieni a gofalwyr i nodi anghenion a diddordebau'r plant. Maent yn rhoi gwybod iddynt am les a datblygiad eu plentyn yn rheolaidd trwy sgyrsiau dyddiol anffurfiol, apwyntiadau, cylchlythyrau ac adroddiadau ysgrifenedig ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r lleoliad yn creu ymdeimlad cryf o berthyn trwy gysylltiadau â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae ymweliadau rheolaidd gan yr heddlu, y gwasanaeth tân ac artist lleol. Mae'r lleoliad yn trefnu teithiau i fannau o ddiddordeb lleol, fel yr Ardd Fotaneg a Chanolfan Gwlyptir Llanelli. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth plant o'r byd ehangach yn llwyddiannus.

Mae trefniadau pontio buddiol i ysgolion sy'n bwydo sy'n sicrhau y caiff plant eu paratoi'n dda i symud i gam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/04/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete